

Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol
Y 13eg Cyfarfod, negeseuon allweddol a chamau weithredu

| | | | | | |
|-------------------------|---|----------------------|-------|----------------------|------------|
| Teitl y Cyfarfod | Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) | | | Dyddiad | 16.07.2020 |
| Rhif y Cyfarfod | 13 | Amser Dechrau | 13:30 | Amser Gorffen | 15:31 |
| Yn bresennol | <p>Peter Davies (Cadeirydd) (Partneriaeth PD),</p> <p>Steve Griffiths (Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain), Mark Russell (Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain), Phil Hollington (Cragen Llŷn a Môn), Jennifer Grubb (Dŵr Cymru), Jonathan Monk (Porth Aberdaugleddau), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Jetske Germing (Ynni Morol Cymru), Mike Parry (Partneriaeth Pwllheli), Phil Horton (Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol), John Wrottesley (Cymdeithas Ceblau Tanforol Ewrop), Jack Middleton (Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth), Rosie Kelly (Ystad y Goron), Gill Bell (Y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chyswllt Amgylchedd Cymru), Jim Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), Rachel Sharp (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru), Sarah Young (Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd), Nicola Gandy (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), John O'Connor (Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru), James Moon (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)), Jess Hooper (Ynni Morol Cymru – Ysgrifenyddiaeth Grŵp Cynghori Ysgrifennydd y Cabinet), Kirsty Lindenbaum (CNC), Jennifer Goodwin (Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr)</p> <p>Gareth Bevington, Mike Dowell, Chris Jenkins, Elen King, Julian Bray, Hilary Evans, Louise Durns (Llywodraeth Cymru)</p> | | | | |
| Cyflwynwyr | <p>James Moon (Cyfoeth Naturiol Cymru)</p> <p>Jess Hooper (Ynni Morol Cymru)</p> <p>Chris Jenkins (Llywodraeth Cymru)</p> | | | | |
| Ymddiheuriadau | <p>Emily Williams (RSPB)</p> <p>Tegryn Jones (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)</p> <p>Katie Harvard-Smith (Partneriaeth Afon Aber Hafren)</p> <p>David McDermott (Un Llais Cymru / Harbwr Saundersfoot)</p> <p>Nick O'Sullivan (Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru chair)</p> | | | | |

| # | Eitem ar yr Agenda |
|----|---|
| 1. | Croeso, Cyflwyniadau ac Arferion y Cyfarfod |
| 2. | Diweddariad gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd (gan gynnwys Grant Pysgodfeydd Cymru) |
| 3. | Rôl y Môr yn yr Adferiad Gwyrdd ar ôl COVID-19 |
| 4. | Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr CNC |
| 5. | Y Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau Ynni Morol |
| 6. | Diweddariad ar Fioamrywiaeth Forol |
| 7. | Sesiwn Holi ac Ateb |
| 8. | Dyddiadau Pwysig a Chrynodeb |
| 9. | Diwedd |

Cyflwyniad

Mae Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau a dadleuon, ac yn rhoi cymorth a chynghor i Lywodraeth Cymru ar bolisi morol ac arfordirol strategol. Dyma'r grŵp rhanddeiliaid cyffredinol ar gyfer gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, sy'n eistedd ochr yn ochr â Grŵp Gweithredu ar Bysgodfeydd Môr Cymru, sef fforwm arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd.

Mae WMAAG yn cynnwys 36 o randdeiliaid arweiniol, sy'n cynrychioli buddiannau'r holl sectorau sydd â buddiant neu fuddsoddiad yn y Sector Morol yng Nghymru. Mae manylion y sectorau a'r sefydliadau arweiniol wedi eu cynnwys yng [Nghylch Gorchwyl](#) y Grŵp

Negeseuon ac Allbynnau Allweddol

Eitem 1: Croeso, Cyflwyniadau ac Arferion y Cyfarfod

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Bu nifer o ymddiheuriadau, yn bennaf oherwydd rhwymedigaethau eraill.</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod rhithwir cyntaf, a rhoi cyfarwyddiadau cyflym ar sut i ddefnyddio MS Teams a'r logisteg ar gyfer y prynhawn.</p> | |

Eitem 2: Diweddariad gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd (gan gynnwys Grant Pysgodfeydd Cymru)

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Rhoddodd Mike Dowell, Pennaeth Is-adran y Môr a Physgodfeydd ddiweddariad i'r aelodau.</p> <p>O ystyried yr amgylchiadau, mae cynllun gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd ar gyfer 2020–21 yn parhau i fod yn uchelgeisiol, er gwaethaf yr heriau o ganlyniad i C-19 a'r ffaith bod pob aelod o staff yn gweithio gartref. Yn ogystal ag ymateb i C-19 ac ymadael â'r UE, mae hefyd gan yr Is-adran flaenoriaethau o dan Raglen Lywodraethu ddiwygiedig.</p> <p>O ogystal a staff yn cael eu defnyddio i wneud gwaith COVID arall yn adrannau eraill Llywodraeth Cymru, rhoddodd yr Is-adran ei hymateb ei hun i COVID ar waith, gan ddarparu cymorth ariannol gwerth £500k i'n fflyd o bysgotwyr gweithredol o Gymru. Yn yr un modd â phob adran yn Llywodraeth Cymru, ildiodd Is-adran y Môr a Physgodfeydd ei chyllideb i ymateb canolog Llywodraeth Cymru i amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond cafodd cyllid ar gyfer bioamrywiaeth forol ei ddiogelu.</p> | |

Eitem 3: Rôl y Môr yn yr Adferiad Gwyrdd ar ôl COVID-19

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| <p>Mae'r gwaith o adfer ar ôl COVID-19 yn canolbwyntio ar dri maes (cyfiawnder amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd). Bydd "Cyfiawnder Amgylcheddol" yn cynnwys yr elfennau morol o fewn yr adferiad, a bydd pob gweinidog am weithio gyda'i randdeiliaid.</p> <p>Mae Peter Davies yn aelod o Grŵp yr Adferiad Gwyrdd a bydd yn rhoi adborth yn dilyn cyfarfodydd ac yn sefydlu is-grŵp ar ôl cyfarfod nesaf y grŵp hwnnw sy'n cael ei gynnal mewn 2–3 wythnos.</p> | <p>1.1 PD i drefnu cyfarfod ar ôl y cyfarfod Grŵp yr Adferiad Gwyrdd – wedi'i drefnu ar gyfer 11 Awst</p> |

Eitem 4: Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr CNC

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Cyflwynodd James Moon Raglen Ynni Adnewyddu ar y Môr CNC – Mae pob ardal ar y Môr yn cael ei chynnwys yn y rhaglen</p> <p>Rhoddir Jess Hooper a Phil Horton mewn cysylltiad â'i gilydd, gwahoddwyd PH i ymuno â chyfarfodydd y Grŵp Strategol Cyngori ar Ganiatadau Ynni Morol</p> | |

Eitem 5: Y Grŵp Strategol Cyngori ar Ganiatadau Ynni Morol

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Cyflwynodd Jess Hooper ar y Grŵp Strategol Cyngori ar Ganiatadau Ynni Morol.</p> | |

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Trafododd yr aelodau'r angen i ystyried ieithwedd mewn perthynas ag ynni morol adnewyddadwy ac i gyrff anllywodraethol gael amser i siarad yng nghyfarfodydd y dyfodol. Bydd rhagor o drafodaethau rhwng Ynni Morol Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru yn parhau all-lein.</p> | |

Eitem 6: Diweddariad ar Fioamrywiaeth

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Rhoddodd Chris Jenkins ddiweddariad ar Fioamrywiaeth Forol. Cyhoeddir y dyddiad ar gyfer yr Ymgynghoriad ar Strategaeth Forol y DU cyn bo hir.</p> <p>Lleisiwyd rhai pryderon ynghylch y posibilrwydd o gyrraedd rhai targedau Statws Amgylcheddol Da eleni, er y cydnabuwyd y bydd gwaith ar draws llawer o feysydd polisi yn cael ei oedi yn 2020/21 o ganlyniad i argyfwng iechyd y cyhoedd C-19.</p> | |

Eitem 7: Sesiwn Holi ac Ateb

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Trafododd aelodau'r camau nesaf ar gyfer rheoli ardaloedd morol gwarchoddedig a dull sy'n ystyried safle cyfan. Mae gwaith yn parhau ar yr Adroddiad Ardaloedd Morol Gwarchoddedig blynyddol a'r cynllun gweithredu ar gyfer 2020–21. Mae ardaloedd morol gwarchoddedig Cymru yn cael eu rheoli drwy asesu effeithiau posibl gweithgareddau penodol ar nodweddion y safle.</p> <p>Trafododd aelodau'r nod Statws Amgylcheddol Da a'r hyn sydd ei angen i sicrhau'r statws hwn o fewn y chwe mis nesaf. Mae gweinyddiaethau'r DU yn gweithio gyda'i gilydd, drwy Strategaeth Forol y DU i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da. Bydd Rhan 2 o'r Ymgynghoriad ar Strategaeth Forol y DU yn cael ei chynnal yn y</p> | |

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|--|------------------|
| <p>misoedd nesaf, a bydd aelodau'n cael eu hysbysu pan fydd yn dechrau. Mae'r ddwy raglen o fesurau a chynllunio monitro yn parhau i gael eu datblygu ar draws y gweinyddiaethau.</p> <p>Cytunodd aelodau ar bwysigrwydd ymgynghori â'r gymuned, a lleisio pryderon y gallai barn cymunedau arfordirol ar unrhyw gyfyngiadau yn dilyn COVID-19 fod yn negyddol. Bydd angen strategaeth glir ac effeithiol i sicrhau bod cymunedau'n teimlo fel pe baent yn cael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd, ond hefyd i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y broses.</p> | |

Eitem 8: Crynodeb

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|------------------|
| <p>Gofynnodd Peter Davies i unrhyw adborth ar y cyfarfod rhithwir cyntaf gael ei rannu â Hilary Evans ac Elen King.</p> | |